

Ymgynghoriad Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol Ceredigion

Adroddiad Cyn-Statudol ar gyfer Aelodau Etholedig a Rhanddeiliaid Mewnol



Sustrans yw'r elusen sy'n ei gwneud yn haws i bobl gerdded a beicio. Rydym yn cysylltu pobl a llefydd, yn creu cymunedau byw, yn trawsnewid y daith i'r ysgol ac yn hwyluso taith hapusach ac iachach i'r gwaith.

Ymunwch â ni ar ein siwrne.

Sustrans is the charity making it easier for people to walk and cycle. We connect people create liveable neighbourhoods, transform the school run and deliver a happier, healthier



and places,
commute.

www.sustrans.org.uk

Elusen Gofrestredig Rhif 326550 (Cymru a Lloegr) SC039263 (Yr Alban).

Statws cylchrediad:	Fersiwn derfynol
Dyddiad cyhoeddi:	17 Mehefin 2021
Awduron:	Dave McCullough, Eni Hansen-Magnusson
Sicrhau ansawdd:	Patrick Williams
Cymeradwyo:	Patrick Williams (17 Mehefin 2021)

Cynnwys

Rhestr Termau Allweddol _____	4
Rhan 1: Trosolwg _____	5
Nod y Diweddariad hwn _____	5
Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 _____	5
Ble ydym ni yn y broses? _____	7
Rhan 2: Crynodeb Ymgysylltu _____	8
Pwysigrwydd Ymgysylltu _____	8
Gweithgareddau Ymgysylltu _____	11
Ymgysylltu â phobl â nodweddion gwarchoddedig _____	15
Ymgysylltiad â ffocws yn Llanbedr Pont Steffan _____	17
Ymgysylltu ag ysgolion _____	18
Rhan 3: Datblygu'r Rhwydwaith a'r Mapiau Drafft _____	20
Rhan 4: Argymhellion Rhwydwaith _____	25
Atodiad A: Rhestr o'r Grwpiau y Cysylltwyd â Nhw _____	32

Rhestr Termau Allweddol

Term Allweddol	Disgrifiad
Ardaloedd/Trefi Dynodedig	Ardaloedd adeiledig wedi'u diffinio gan Lywodraeth Cymru y mae'r ddyletswydd fapio yn berthnasol iddynt.
Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG)	Proses arfarnu ar gyfer prosiectau trafndiaeth yng Nghymru sy'n ystyried y broblem ac yn asesu'r opsiynau posibl a allai ddarparu ateb yn erbyn ystod o feini prawf.
Commonplace	Platfform ymgysylltu ar-lein wedi'i ddarparu gan Lywodraeth Cymru.
Dwysedd Rhwydwaith	Mae Llywodraeth Cymru yn amlinellu nod i gael rhwydweithiau 'cynhwysfawr' yn y trefi dynodedig o fewn 15 mlynedd. Os dychmygir tref fel grid, mae Llywodraeth Cymru yn disgrifio cynhwysfawr fel llwybr Safon Teithio Llesol ar gyfer pob 250m (yn ychwanegol at y Rhwydwaith Sylfaenol o lwybrau sydd ar gael).
Llwybr Presennol	Mae'n cyfeirio at lwybr sydd wedi'i archwilio yn erbyn cyfres o feini prawf penodedig Llywodraeth Cymru ac a ystyrir yn addas ar gyfer cerdded, beicio neu'r ddau.
Llwybr y Dyfodol	Cyfeiriwyd ato yn flaenorol fel Llwybrau Rhwydwaith Integredig (yn 2017) ac erbyn hyn cyfeirir ato fel 'Llwybrau'r Dyfodol'. Mae'r rhain yn cyfeirio at lwybrau nad ydynt yn cwrdd â throthwy meini prawf penodedig Llywodraeth Cymru eto, nad ydynt yn bodoli eto, neu nad ydynt wedi'u harchwilio eto.
Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol	O dan y Ddeddf Teithio Llesol, mae'n ddyletswydd ar Awdurdodau Lleol i fapio Llwybrau Presennol a Llwybrau'r Dyfodol ar gyfer cerdded a beicio yn yr ardaloedd a nodwyd gan Lywodraeth Cymru.
Offeryn Tebygolrwydd o Feicio	Offeryn cymorth cynllunio ar-lein a rhyngweithiol i ddarparu sylfaen dystiolaeth i lywio buddsoddi mewn beicio.
Rhwydwaith Sylfaenol	Term a ddefnyddir i ddisgrifio'r holl lwybrau o fewn ardal sydd ar gael i gerddwyr a/neu feicwyr.
Teithio Llesol	Mae teithio llesol yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio cerdded a beicio ar gyfer teithiau pwrpasol. Yn ôl Deddf Teithio Llesol Cymru 2013, mae 'cerddwyr a beicwyr' yn cynnwys pobl anabl a defnyddwyr cymhorthion symudedd.

Rhan 1: Trosolwg

Annwyl Aelod Etholedig/Rhanddeiliad,

Mae Cyngor Sir Ceredigion (CSC) wedi comisiynu Sustrans Cymru i gynnal adolygiad o'r Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol yng Ngheredigion, yn unol â'r dyletswyddau a amlinellir yn Neddf Teithio Llesol (Cymru) 2013¹ (y cyfeirir ati fel y Ddeddf).

Mae CSC wedi cwblhau Camau 1 a 2 o'r broses ymgysylltu ac wrthi'n paratoi ar gyfer elfen statudol y broses fel sy'n ofynnol o dan Ddyletswyddau'r Ddeddf.

Nod y Diweddariad hwn

Nod y diweddariad hwn yw rhoi'r canlyniadau o Gam 2 y broses Ymgysylltu i'r Aelodau a chydweithwyr mewnol, ac ymgorffori argymhellion ar gyfer cynigion Llwybrau Teithio Llesol i'w cymryd i'r Ymgynghoriad Statudol o ganlyniad i Gamau 1 a 2 (trafodir llwybrau arfaethedig i'w hychwanegu yn Rhan 4 yr adroddiad hwn).

Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

Mae 'Teithio Llesol', fel y'i diffinnir yn y Ddeddf, yn cyfeirio at gerdded a beicio ar gyfer teithio at ddiben penodol bob dydd (e.e. teithiau i fannau addysg, y siopau neu i'r gwaith). Felly nid yw cwmpas y llwybrau a ystyrir o dan y Ddeddf yn berthnasol i lwybrau hamdden ac adloniant, oni bai eu bod hefyd yn darparu tystiolaeth ddigonol o deithio at ddiben penodol.

Mae ardaloedd/trefi dynodedig wedi'u cwmpasu o dan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 ac yng Ngheredigion mae'r rhain wedi'u nodi gan Lywodraeth Cymru fel:

- Aberystwyth
- Aberteifi
- Llanbedr Pont Steffan

(Gall hyn gynnwys aneddiadau cyfagos lle mae potensial a thystiolaeth glir ar gyfer Teithio Llesol i'r trefi dynodedig agosaf).

Nod y mapiau trefi uchod yw dangos rhwydwaith cynhwysfawr arfaethedig o lwybrau teithio llesol ar gyfer teithio ar droed ac ar feic – y mae'n rhaid eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru o dan ddyletswyddau statudol y Ddeddf ar ddiwedd 2021 i'w cymeradwyo.

Fel gofyniad sylfaenol, rhaid i lwybrau gysylltu â'r holl ysgolion presennol a'r rhai sydd wedi'u cynllunio yn yr ardaloedd a nodwyd uchod. Dylai'r llwybrau gael eu

¹ <https://www.legislation.gov.uk/anaw/2013/7/contents/enacted>

cyfiawnhau yn erbyn ffynonellau tystiolaeth cadarn (disgrifir yn fanylach yn Rhan 3).

Yn ôl yr hyn y mae'r Cyngor yn ei ddeall, bydd llwybrau sydd wedi'u cynnwys ar y map a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru yn gymwys ar gyfer gwneud ceisiadau am gyllid i Gronfa Teithio Llesol Llywodraeth Cymru (er y bydd canlyniad llwyddiannus ceisiadau am gyllid yn amodol ar ddarparu tystiolaeth ddigonol i gefnogi 'Achos dros Newid'). Gall rhai llwybrau a nodir fod yn ddibynnol ar gyfraniadau datblygwyr neu gysylltu â phartïon allanol fel Llywodraeth Cymru â'r Asiant Cefnffyrdd a/neu gytundebau tirfeddiannwyr.

Mae'r cynigion yn dangos llwybrau presennol sy'n addas ar hyn o bryd at ddefnydd teithio llesol yn ogystal â'r rhai sydd â'r potensial i fodloni'r safonau teithio llesol gofynnol ar ôl eu gwella.

Mae'r broses hyd yma wedi cynnwys ymgysylltu helaeth (Cam 1 a 2) â'r cyhoedd a rhanddeiliaid, astudiaeth bwrdd gwaith ac ymweliadau/archwiliadau safle o'r llwybrau arfaethedig a'r cyfleusterau cysylltiedig i gynhyrchu rhwydwaith drafft i'w gyflwyno. Mae'r adroddiad hwn wedi'i rannu'n bedair adran:


Mae **Rhan 1** yn rhoi cyflwyniad byr i Deithio Llesol a chwmpas yr adolygiad hwn.

Mae **Rhan 2** yn rhoi trosolwg o'r gweithgareddau ymgysylltu a wnaed gan CSC i gael adborth cyffredinol gan gymunedau, rhanddeiliaid, partneriaid cyflenwi ac aelodau o'r cyhoedd.

Mae **Rhan 3** yn disgrifio'r broses a ddilynwyd i gyrraedd y rhwydweithiau sydd i'w cyflwyno yn yr ymgynghoriad statudol.

Mae **Rhan 4** yn disgrifio'r argymhellion ar gyfer diweddariadau i'r rhwydwaith arfaethedig (o'i gymharu â'r hyn a gynigiwyd yng Ngham 2) i'w hystyried gan CSC.

Ble ydym ni yn y broses?



Figur 1: Camau datblygu'r broses

Rhan 2: Crynodeb Ymgysylltu

Pwysigrwydd Ymgysylltu

Mae diwygiadau i Ganllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol² Drafft Llywodraeth Cymru yn rhoi pwyslais ar bwysigrwydd ymgynghori ac ymgysylltu wrth ddatblygu Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol.

Mae'r egwyddorion sydd wedi'u hymgorffori yn y canllawiau yn datgan bod Rhwydweithiau Teithio Llesol a ddatblygir gyda chymunedau a chan ddefnyddwyr presennol a darpar ddefnyddwyr yn fwy tebygol o gael eu defnyddio, ac felly mae effaith unrhyw seilwaith a ddarperir yn debygol o fod yn fwy.

Mae'r canllawiau'n awgrymu y dylid mabwysiadu dull aml-gam at ymgysylltu, gyda'r cyfle cyntaf yn codi yn y cam adnabod llwybr. Dylai fod ail gyfle i ymgysylltu ar ôl cwblhau'r dyluniad amlinellol i roi cyfle pellach i randdeiliaid fireinio dyluniad y cynllun. Ar gyfer Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol a ddatblygir o dan y Ddeddf Teithio Llesol, rhaid cael cyfnod ymgynghori cyhoeddus statudol o 12 wythnos.

Proses Ymgysylltu Aml-gam

Er mwyn sicrhau proses ymgysylltu drylwyr ac ystyrlon, cychwynnodd Cyngor Sir Ceredigion ymgysylltu yn ystod Tachwedd 2020, sef yr Awdurdod Lleol cyntaf i lansio'r ymgynghoriad cyhoeddus trwy'r platfform 'Commonplace' a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru.

Er mwyn cael adborth dibynadwy a rhoi cyfle i bobl barhau i gymryd rhan trwy bob cam o'r broses ymgynghori, dewisodd Ceredigion ddull ymgysylltu aml-gam. Mae hyn yn mynd y tu hwnt i ofynion gofynnol Canllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol, ond barnwyd bod y dull hwn yn dra dymunol er mwyn dangos bod Cyngor Sir Ceredigion wedi dilyn proses hollol gynhwysol.

² <https://gov.wales/active-travel-guidance>




*Ffigur 2: Platfform Ymgysylltu Ar-lein
(<https://ceredigion.commonplace.is/> sgrinlun 6.1.2021)*

Roedd cam cyntaf ymgynghoriad Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol yng Ngheredigion wedi rhedeg am chwe wythnos rhwng 26 Tachwedd 2020 a 6 Ionawr 2021, ac roedd modd ei gyrchu trwy'r platfform ymgysylltu ar-lein Commonplace. Roedd yr ymgynghoriad cychwynnol wedi gofyn yn benodol am y rhwystrau y mae pobl yn eu hwynebu ar eu teithiau bob dydd ar droed neu ar feic.

Mae'r cam cychwynnol wedi gweld cyfradd ymateb da, yn enwedig a chofio'r amgylchiadau anodd ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd oherwydd cyfyngiadau Covid-19. Mae'r ymgynghoriad wedi gweld cyfanswm o:

- 675 o bobl yn cymryd rhan,
- 2663 o ymwelwyr unigol,
- 505 o sylwadau unigol,
- 1619 yn cytuno â'r sylwadau presennol.



Ffigur 3: Commonplace Cam 2, Adborth ar y Map Rhwydwaith Teithio Llesol Drafft (<https://ceredigion2.commonplace.is/>, sgrinlun 22.3.2021)

Roedd ail gam yr ymgynghoriad yn ceisio adborth gan y cyhoedd ar y Map Rhwydwaith Teithio Llesol Drafft. Cafwyd llai o ymatebion yn yr ail gam ond mae lefelau ymgysylltu da i'w gweld o hyd. Unwaith eto, roedd ymgynghoriad Cam 2 ar gael trwy Commonplace ac roedd ar gael ar-lein am dair wythnos rhwng 3 a 22 Mawrth 2021. Mae'r ymgynghoriad wedi gweld cyfanswm o:

- 328 o bobl yn cymryd rhan,
- 1533 o ymwelwyr unigol,
- 273 o sylwadau unigol,
- 716 yn cytuno â'r sylwadau presennol.

Mapio rhanddeiliaid

Roedd proses fanwl o fapio rhanddeiliaid wedi ffurfio man cychwyn yr ymgynghoriad i sicrhau bod yr holl gynulleidfaoedd a awgrymir yng Nghanllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol yn cael eu cynnwys (h.y. plant a phobl ifanc, grwpiau na chlywir ganddynt yn aml, grwpiau â nodweddion gwarchoddedig, pobl sy'n teimlo na allant deithio yn llesol nawr, yn ogystal â rhanddeiliaid allweddol, partneriaid cyflenwi, y cyhoedd ehangach ac unigolion oedd am gael eu hymgyngori â nhw). Rhannwyd fersiwn dienw o'r rhestr rhanddeiliaid â'r rhwydwaith gwirfoddolwyr Sustrans lleol yng Ngheredigion i ganfod grwpiau rhanddeiliaid oedd heb eu cynnwys.


Gweithgareddau Ymgysylltu

Ymgyrch Ebst


I gyd-fynd â lansio'r ymgynghoriad roedd ymgyrch ebst wedi ymestyn allan i dros 240 o grwpiau lleol, hybiau cymunedol, elusennau, clybiau chwaraeon, busnesau, awdurdodau lleol cyfagos, gorsafoddd heddlu, Aelodau Etholedig, Cynghorwyr Cymuned a Thref ac ati. (Mae'r rhestr gyflawn o'r grwpiau y cysylltwyd â nhw i'w gweld yn Atodiad A).

Cyfyngau cymdeithasol

Hyrwyddwyd lansio'r ymgynghoriad trwy ddatganiad i'r wasg ar draws y cyfyngau print ac ar-lein yng Ngheredigion ac ar draws sianeli cyfyngau cymdeithasol Sustrans (Twitter a Facebook) trwy bostiadau mynych ar y cyfyngau (2.12.2020, 17.12.2020, 6.1.2021, 8.1.2021, 3.3. 2021, 4.3.2021).



Ffigur 4: Ymgynghoriad Cam 1: postiau Facebook/Twitter trwy Sustrans Cymru, Sgrinluniau Rhagfyr 2020





Ffigur 5: Ymgynghoriad Cam 2: postiau Twitter/Facebook trwy Sustrans Cymru, Sgrinluniau Mawrth 2021


Cysylltwyd â dros 25 o grwpiau lleol yn uniongyrchol trwy negeseuon personol ar Facebook.

Copïau papur o fap ac arolwg yr Ymgynghoriad

Er mwyn sicrhau hygyrchedd yr ymgynghoriad ar gyfer cynifer o bobl â phosibl, roedd fersiwn bapur o'r map ymgynghori a'r arolwg ar gael yn Saesneg ac yn Gymraeg trwy'r post i unigolion ar gais.

CEREDIGION ACTIVE TRAVEL NETWORK MAPPING





<p>Where have you placed your comment? Eg. street name, school name</p> <hr/> <p>What is your connection to this place?</p> <table style="width: 100%; border: none;"> <tr> <td style="width: 50%;">Go to school here</td> <td style="width: 50%;">Come shopping here</td> </tr> <tr> <td>Live here</td> <td>Work here</td> </tr> <tr> <td>As a transport interchange/hub</td> <td>Go to College/University</td> </tr> </table> <p>Other: _____</p> <p>What are you commenting on?</p> <table style="width: 100%; border: none;"> <tr> <td style="width: 50%;">Road</td> <td style="width: 50%;">Pavement/footpath</td> </tr> <tr> <td>Cycle lane (on road)</td> <td>Cycle parking</td> </tr> <tr> <td>Cycle path (off road)</td> <td>Junction</td> </tr> <tr> <td>Walking & Cycling shared path (off road)</td> <td>Crossing</td> </tr> </table> <p>Other: _____</p> <p>What is the issue you are commenting on?</p> <table style="width: 100%; border: none;"> <tr> <td style="width: 50%;">Lack of safe route for walking</td> <td style="width: 50%;">Street furniture</td> </tr> <tr> <td>Hard to cross the road</td> <td>Poor lighting</td> </tr> <tr> <td>Behaviour of road users</td> <td>Poor air quality</td> </tr> <tr> <td>Lack of secure bike parking</td> <td>Pavement parking</td> </tr> <tr> <td>Behaviour of other path users</td> <td>Heavy traffic</td> </tr> <tr> <td>Lack of safe route for cycling</td> <td>Barriers to access</td> </tr> <tr> <td>Poor signage/route hard to find</td> <td>Speeding</td> </tr> </table> <p>Other: _____</p> <p>What is the issue you are commenting on?</p> <table style="width: 100%; border: none;"> <tr> <td style="width: 50%;">Improve path surface</td> <td style="width: 50%;">Add dropped kerbs</td> </tr> <tr> <td>Add cycle parking</td> <td>Slow down traffic</td> </tr> <tr> <td>Connect pavements</td> <td>Repaint lane stripping</td> </tr> <tr> <td>More seating</td> <td>Better enforcement</td> </tr> <tr> <td>Remove barriers</td> <td>More cycle lanes</td> </tr> <tr> <td>Restrict traffic or close road</td> <td>Better signage</td> </tr> <tr> <td>More facilities for disabled</td> <td>Pedestrianise</td> </tr> <tr> <td>Widen footpath/pavement</td> <td>Add/improve crossing</td> </tr> <tr> <td>Remove pavement clutter</td> <td>Safer junction</td> </tr> </table> <p>Other: _____</p>	Go to school here	Come shopping here	Live here	Work here	As a transport interchange/hub	Go to College/University	Road	Pavement/footpath	Cycle lane (on road)	Cycle parking	Cycle path (off road)	Junction	Walking & Cycling shared path (off road)	Crossing	Lack of safe route for walking	Street furniture	Hard to cross the road	Poor lighting	Behaviour of road users	Poor air quality	Lack of secure bike parking	Pavement parking	Behaviour of other path users	Heavy traffic	Lack of safe route for cycling	Barriers to access	Poor signage/route hard to find	Speeding	Improve path surface	Add dropped kerbs	Add cycle parking	Slow down traffic	Connect pavements	Repaint lane stripping	More seating	Better enforcement	Remove barriers	More cycle lanes	Restrict traffic or close road	Better signage	More facilities for disabled	Pedestrianise	Widen footpath/pavement	Add/improve crossing	Remove pavement clutter	Safer junction	<p style="background-color: #92d050; color: white; padding: 2px; text-align: center; font-weight: bold;">Mark a location on the map where you want to comment.</p>  <p style="font-size: small;">Any other comments?</p> <div style="border: 1px solid #ccc; height: 40px; margin-top: 5px;"></div>
Go to school here	Come shopping here																																														
Live here	Work here																																														
As a transport interchange/hub	Go to College/University																																														
Road	Pavement/footpath																																														
Cycle lane (on road)	Cycle parking																																														
Cycle path (off road)	Junction																																														
Walking & Cycling shared path (off road)	Crossing																																														
Lack of safe route for walking	Street furniture																																														
Hard to cross the road	Poor lighting																																														
Behaviour of road users	Poor air quality																																														
Lack of secure bike parking	Pavement parking																																														
Behaviour of other path users	Heavy traffic																																														
Lack of safe route for cycling	Barriers to access																																														
Poor signage/route hard to find	Speeding																																														
Improve path surface	Add dropped kerbs																																														
Add cycle parking	Slow down traffic																																														
Connect pavements	Repaint lane stripping																																														
More seating	Better enforcement																																														
Remove barriers	More cycle lanes																																														
Restrict traffic or close road	Better signage																																														
More facilities for disabled	Pedestrianise																																														
Widen footpath/pavement	Add/improve crossing																																														
Remove pavement clutter	Safer junction																																														

Ffigur 6: Enghraifft o'r map papur a chwestiynau'r arolwg a anfonwyd at unigolion ar gais.

Posteri Printiedig


Dosbarthwyd posterï printiedig i'r prif swyddfeydd post, llyfrgelloedd a siopau beiciau yn yr aneddiadau dynodedig.



Ffigur 7: Poster yr ymgynghoriad (fersiwn print a thaflen ddiigidol yn Gymraeg ac yn Saesneg), wedi'i ddsbarthu i lyfrgelloedd, swyddfeydd post a siopau beiciau.


Ymgysylltu ag Aelodau Etholedig, Cyngorau Tref a Chymuned

Er mwyn cael adborth cynnar ar y mapiau llwybr drafft, gwahoddwyd rhanddeiliaid i gael rhagolwg o'r Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol drafft ar ôl ymgynghoriad Cam 1 cyn iddynt gael eu rhyddhau i'r cyhoedd yn ymgynghoriad Cam 2 ar 3 Mawrth 2021. Roedd modd cyrchu'r mapiau drafft ar-lein a chafodd rhanddeiliaid mewnol eu hannog i edrych arnynt a chynnig sylwadau ar y mapiau llwybr arfaethedig.



Figur 8: Map llwybr drafft ar gyfer cerdded a beicio yn hygyrch ar gyfer pob Rhanddeiliad Mewnol trwy fap ar-lein yn seiliedig ar GIS. Sgrinlun, 20.02.2021

Rhannwyd adroddiad interim â'r rhanddeiliaid mewnol yr un pryd, gan ddarparu trosolwg o'r broses Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol, diweddariad ar yr ymgynghoriad ac arweiniad ar sut i weld a rhoi adborth ar fapiau rhwydwaith drafft Ceredigion. Rhannwyd yr adroddiad â'r holl Aelodau Etholedig ar 18 Chwefror 2021.



Figur 9: Adroddiad interim ar gyfer Aelodau Etholedig a Rhanddeiliaid Mewnol

Ymgysylltu â phobl â nodweddion gwarchoddedig

Ar ran Cyngor Ceredigion, adolygodd Sustrans y data demograffig, daearyddol a chyraddoldeb ar ymatebwyr ar ôl y cam ymgysylltu cyntaf, gan eu paru â data Cyfrifiad 2011 er mwyn nodi grwpiau/ardaloedd heb gynrychiolaeth ddigonol i helpu i ganolbwyntio gweithgareddau ymgysylltu pellach yn ystod yr ymgynghoriad statudol. Dangosodd y canlyniadau bod cyfatebiaeth dda yn gyffredinol rhwng ymatebwyr a data poblogaeth, gydag ychydig o anghysondeb yn unig yn lefelau ymgysylltu pobl o dan 24 oed a phobl 65 oed a hŷn. O ganlyniad, roedd gweithgareddau ymgysylltu yng Ngham 2 yn canolbwyntio mwy ar y grwpiau oedd heb gynrychiolaeth ddigonol.

Ymgynghorwyd â Sefydliad Brenhinol y Deillion, Cŵn Tywys Cymru a Chyngor Cymru i'r Deillion sawl gwaith i roi cyfle i **bobl â nam ar eu golwg** roi eu hadborth. Wedi'i gydlynw trwy Fforwm Golwg Cymru, rhoddodd pobl sydd wedi colli eu golwg eu hadborth trwy holiadur ar-lein, trwy'r post, mewn fforymau aelodau rhithiol a dros y ffôn. I gael adborth penodol ar y rhwystrau a wynebwr gan bobl sy'n byw gyda dallfyddardod, cynhaliwyd sgysiau uniongyrchol gydag aelod o Deafblind Cymru.

Er mwyn hyrwyddo'r ymgynghoriad ymysg **pobl ifanc a grwpiau agored i niwed**, cafwyd sgysiau a chyfarfodydd â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Comisiynydd Plant Cymru a'r Cyngor Gwaith Ieuencid Gwirfoddol.

Yn ogystal â hyn, cafodd fideo hyrwyddo ei ffilmio oedd yn targedu cynulleidfaoedd ifanc a'i rannu trwy'r cyfryngau cymdeithasol yn benodol gyda grwpiau a sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl ifanc, megis Gwasanaeth Ieuencid Ceredigion, Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Coleg Ceredigion, Urdd Ceredigion, Fforwm Ieuencid Penparcau, ac ati.



Ffigur 10: Fideo hyrwyddo ar yr ymgynghoriad yn targedu pobl ifanc a gafodd ei rannu trwy Twitter/Facebook. Sgrinlun 3.3.2021

Er mwyn hyrwyddo ymgysylltiad ymysg **pobl ifanc a phobl hŷn** yn ogystal â **menywod**, rhannwyd taflen a phoster dwyieithog yn benodol â grwpiau gan ganolbwyntio ar bobl ifanc a phobl hŷn, megis Age Cymru Dyfed, grwpiau U3A lleol, Merched y Wawr, Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru, Ceredigion 50+, ac ati.



Ffigur 11: Taflenni/Posterï ar gyfer Ymgysylltu Cam 2 yn canolbwyntio ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig

Gweler Atodiad A am restr lawn o'r grwpiau y cysylltwyd â nhw ac sy'n cymryd rhan yn uniongyrchol â'r ymgynghoriad hwn.


Ymgysylltiad â ffocws yn Llanbedr Pont Steffan

Roedd setiau data Cam 1 Commonplace yn dangos lefel isel iawn o adborth gan drigolion Llanbedr Pont Steffan. Yn seiliedig ar hyn, cysylltwyd â 30 o grwpiau a sefydliadau ychwanegol yn Llanbedr Pont Steffan pan lanswyd ymgynghoriad Cam 2. Cysylltwyd yn uniongyrchol ag aelodau'r ward lleol hefyd a'u hannog i hyrwyddo'r ymgynghoriad ar y rhwydwaith drafft yn Llanbedr Pont Steffan.

Mae Sustrans Cymru yn argymhell y dylid ymestyn gweithgareddau ymgysylltu yn Llanbedr Pont Steffan yn ystod yr ymgynghoriad statudol, e.e. trwy ddsbarthu llythyrau neu ymgysylltu wyneb yn wyneb yng nghanol tref Llanbedr Pont Steffan, os caniateir hynny – yn dibynnu ar gyfyngiadau Covid.

Ymgysylltu ag ysgolion

Ymgysylltwyd ag ysgolion trwy amrywiaeth o weithgareddau: Cysylltwyd â 14 Ysgol Gynradd, 3 Ysgol Uwchradd ac 1 Ysgol '3 i 19' yn y tri anheddiad dynodedig a'r ardaloedd cyfagos mewn ymgyrch ebost gychwynol gyda galwadau ffôn ac ebyst dilynol. Cafodd myfyrwyr B5 a hŷn, teuluoedd a gofalwyr eu gwahodd i roi eu mewnbwn trwy arolwg ar-lein a gafodd ei bersonoli ar gyfer pob ysgol. Roedd yr arolwg ysgolion yn fyw am bum wythnos rhwng 20 Ebrill a 28 Mai 2021.



Ffigur 12: Arolwg ar-lein penodol i ysgolion, enghraifft o Ysgol Gynradd Padarn Sant, sgrinlun 20.4.2021.

Os oedd athrawon am ymhelaethu ar yr ymgyngoriad a Theithio Llesol yn gyffredinol yn ystod eu gwersi, rhoddwyd deunyddiau ychwanegol iddynt, fel cynllun gwrs dwyieithog ar Deithio Llesol ac ymgyngoriad Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol, canllawiau i ddysgwyr yn y cartref (canllawiau i fyfyrwyr nad ydynt yn gallu mynychu'r ysgol ar hyn o bryd), yn ogystal â fideos hyfforddi/addysgiadol dwyieithog y gellid eu dangos yn yr ystafell ddosbarth. Cafodd dwy ysgol adnoddau pellach a gweithgareddau dilynol pan ofynnwyd amdanynt.

Barriers to active travel



Ffigur 13: Fideo hyfforddi ar Deithio Llesol ac Ymgynghoriad Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol, Sgrinlun YouTube 25.5.2021

Cafodd yr arolwg ar-lein ei gwblhau gan 252 o fyfyrwyr o 9 ysgol wahanol:

Ysgolion	Ymatebwyr
Ysgol Gymunedol Talybont – Arolwg Cymraeg	14
Ysgol Comins Coch – Arolwg Saesneg	19
Ysgol Padarn Sant – Arolwg Saesneg	6
Ysgol Plascrug – Arolwg Saesneg	33
Ysgol Gynradd Llechryd – Arolwg Cymraeg	52
Ysgol Gynradd Llechryd – Arolwg Saesneg	8
Ysgol Gymraeg – Arolwg Cymraeg	51
Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig – Arolwg Cymraeg	19
Ysgol Gynradd Llanilar – Arolwg Cymraeg	44
Ysgol Gynradd Penllwyn – Arolwg Cymraeg	6

Tabl 1: Ymatebion i'r Arolwg Ysgolion

Rhan 3: Datblygu'r Rhwydwaith a'r Mapiau Drafft

Mae'r broses datblygu rhwydwaith wedi cychwyn o sylfaen fersiwn 2017 o'r mapiau rhwydwaith a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ac a dderbyniwyd ganddi (ar gael ar dudalennau gwe CSC trwy'r ddolen hon: <https://www.ceredigion.gov.uk/preswylwr/teithio-ffyrdd-a-pharcio/teithio-llesol/>).

Sylwch fod y mapiau yn cael eu diweddarau fel rhan o'r broses hon, a bydd y rhai a dderbynnir yn 2021 yn disodli'r fersiynau blaenorol. Er mwyn datblygu'r rhwydwaith hwn ar gyfer fersiwn 2021, rydym wedi ymchwilio i'r tair prif ffynhonnell tystiolaeth a amlinellir yn Nhabl 2.


Gweithgaredd	Beth oedd hyn wedi'i olygu?	Pam mae hyn yn ddefnyddiol ar gyfer datblygu rhwydwaith?
Astudiaeth Bwrdd Gwaith	<p>Casglu data i helpu i gyfiawnhau aliniadau llwybr, gan gynnwys (ond heb eu cyfyngu i):</p> <ul style="list-style-type: none"> - Lleoliadau allweddol sy'n denu teithiau - Lleoliadau rhwystrau posibl - Llif cymudo - Ystadegau ward (gan gynnwys dwysedd poblogaeth) - Nodi datblygiadau newydd ers 2017 	<p>Mae hyn wedi cynnig modd inni nodi llwybrau â blaenoriaeth tebygol (ar y cyd ag ymweliadau safle ac adborth ymgysylltu) i'w hystyried.</p> <p>Mae hyn hefyd wedi cynnig modd inni sicrhau aliniadau â sylfaen dystiolaeth gadarn a fydd yn cynorthwyo i gyfiawnhau'r aliniadau llwybr pan gânt eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w cymeradwyo.</p>
Ymweliadau Safle	<p>Ymweld â llwybrau yn ystod 2020 (y tu allan i gyfyngiadau'r cyfnod clo) i gofnodi'r llwybr presennol a'r potensial i'w wella.</p>	<p>Wedi cynnig modd i ni sicrhau bod fersiwn 2017 o'r map yn parhau'n ddilys (e.e. mae'r llwybrau'n parhau i fod yn addas ar gyfer cerdded/beicio), ac archwilio unrhyw aliniadau sy'n cyfiawnhau ychwanegu.</p> <p>Mae hyn hefyd, ar y cyd ag astudiaeth bwrdd gwaith ac adborth ymgysylltu, yn tynnu sylw at unrhyw gyfyngiadau o ran cyflenwi ar gyfer llwybrau arfaethedig.</p>

Gweithgaredd	Beth oedd hyn wedi'i olygu?	Pam mae hyn yn ddefnyddiol ar gyfer datblygu rhwydwaith?
Adborth Ymgysylltu (disgrifir y broses yn Rhan 2)	Data Commonplace, cyswllt parhaus â grwpiau rhanddeiliaid ac ymgysylltiad penodol ag ysgolion trwy Swyddog Teithiau Llesol Gorllewin a Chanolbarth Cymru Sustrans.	Yn allweddol i ddatblygiad y rhwydwaith oherwydd gall adborth gan ddefnyddwyr bob dydd nodi ystyriaethau a gafodd eu codi adeg yr ymweliad safle.

Tabl 2- Gweithgareddau i Ddatblygu'r Rhwydwaith


Mae systemau mapio wedi golygu bod modd casglu setiau data ar gyfer pob un o'r trefi dynodedig yng Ngheredigion. Dangosir cipluniau o'r rhwydwaith yn y Ffigurau canlynol (sylwer, er eglurder ni ddangosir yr holl haenau a gafodd eu hystyried ar yr enghreifftiau hyn).

Defnyddiwyd Map Sylfaen yn dangos cyrchfannau ac aneddiadau allweddol i'w troshaenu gyda data addas, fel y dangosir yn Ffigur 14.




Ffigur 14 – Enghraifft o Ddata Troshaenu

Dangosir y map llwybr a gyhoeddwyd yn 2017 yn dangos y Llwybrau Presennol a Llwybrau'r Dyfodol ('integredig' yn flaenorol) a nodwyd ar gyfer cerdded a beicio yn Ffigur 15.



Ffigur 15 – Troshaeniad o'r llwybrau rhwydwaith presennol (fersiwn 2017)


Mae llwybrau'r dyfodol wedi'u nodi yn seiliedig ar gyfuniad o astudiaeth bwrdd gwaith, ymweliadau safle ac adborth ymgysylltu, ac fe'u dangosir yn Ffigur 16.



Figur 16 – Ychwanegu llwybrau i'w hystyried yn niweddariad 2021 (Cam 2)

Cyflwynwyd y cynigion llwybrau drafft hyn ar gyfer adolygiad Cam 2 er mwyn sicrhau bod y map yn adlewyrchu'n gywir yr adborth ymgysylltu o Gam 1. Disgrifir canlyniadau manwl o Gamau 1 a 2 yn Rhan 2 yr adroddiad hwn.

Er mwyn sicrhau bod y sylwadau'n cael eu hystyried, fe'u hychwanegwyd at system fapio GIS, gyda'r llwybrau a gynigiwyd yn flaenorol wedi'u troshaenu.



Ffigur 17 – Sylwadau wedi'u troshaenu yn erbyn cynigion rhwydwaith (ac wrthi'n cael ei adolygu)

Yn gyffredinol, canfuwyd bod ymatebwyr yn cytuno â'r cynigion llwybr lle roeddent yn gwneud sylwadau ar lwybr a nodwyd eisoes, er y derbyniwyd awgrymiadau ar gyfer dyluniadau penodol i'w hystyried ar hyd rhai rhannau o'r llwybr, a dylid eu hystyried yn y cam dylunio manwl.


Rhan 4: Argymhellion Rhwydwaith

O ganlyniad i'r adborth a gafwyd trwy gydol Camau 1 a 2 o'r ymgysylltu, yn ogystal ag ymweliadau safle ac astudiaeth bwrdd gwaith, cynigir yr argymhellion canlynol.

Argymhelliad 1: Mae'r llwybrau a nodwyd eisoes ar y Map a gynigiwyd yng Ngham 2 yn aros ar gyfer yr Ymgynghoriad Statudol.

At ei gilydd, roedd 69% y cant o ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf y byddai'r rhwydwaith arfaethedig cyffredinol fel y'i cyflwynir ar y Map yn cynnig modd iddynt gerdded/beicio mwy ar gyfer teithiau bob dydd.

Ymatebion i gwestiynu ynghylch a fyddai'r rhwydwaith arfaethedig yn annog defnyddwyr i gerdded/beicio mwy ar gyfer teithiau bob dydd



Tabl 3 – Canran yr ymatebwyr i'r cwestiwn ynghylch a fyddai'r rhwydwaith arfaethedig yn eu hannog i gerdded/beicio mwy ar gyfer teithiau bob dydd.

Mae rhai llwybrau wedi cael eu hargymell i'w hail-alinio, er bod y man cychwyn/gorffen yn parhau (gweler argymhelliad 2).

Mae'r taflenni sgôr archwilio sy'n gysylltiedig â'r Llwybrau Presennol wedi'u darparu mewn taenlen Excel ar wahân i CSC.

